Ymgyrch Cewynnau Go Iawn

Clecs Cewynnau

Ionawr 2010

Cynllun Ward Gyfeillgar i Gewynnau Go Iawn yn Cychwyn!

Popeth yn newid yn yr Ymgyrch Cewynnau Go Iawn

Asiantau a gwirfoddolwyr

Gwaith Awdurdodau Lleol

Cysylltwch â ni

Cynllun Ward Gyfeillgar i Gewynnau Go Iawn yn Cychwyn!

Ym mis Tachwedd, gwelwyd y ganolfan eni gyntaf yng Nghymru'n derbyn ei gwobr statws 'Cyfeillgar i Gewynnau Go Iawn'. Derbyniodd canolfan eni'r Foel yn ysbyty Dolgellau ei gwobr, ei hadnoddau a'i phecyn cewynnau ar ei diwrnod agored, 9 Tachwedd.

Llun: Sian Dando a Rosemary Darwell yn niwrnod agored y Foel.

Mae statws Cyfeillgar i Gewynnau Go Iawn yn dangos ymrwymiad yr uned i gefnogi rhieni sydd wedi gwneud y penderfyniad i ddefnyddio cewynnau go iawn ac i rieni eraill sydd am ddarganfod mwy am y cewynnau hyn.

"Mae bydwragedd ac adrannau mamolaeth yn allweddol i effeithiolrwydd yr ymgyrch yma ac mae'n hanfodol eu bod nhw'n darparu'r gefnogaeth a'r arweiniad yma," meddai Sian Dando, swyddog datblygu Ymgyrch Cewynnau Go Iawn. *"Rydym yn dibynnu ar y staff GIG yma i arwain y ffordd gan fod cymaint o barch tuag atyn nhw yn y gymdeithas. Mae'n hynod bwysig trosglwyddo'r negeseuon 'arbed arian' ac 'achub yr amgylchedd' yn syth ar ôl i aelod newydd ymuno â'r teulu. Hoffwn ddiolch i holl staff Canolfan y Foel am gefnogi'r fenter yma a gobeithio y bydd mwy o ysbytai yng Nghymru yn barod i wynebu'r her."*

Y ganolfan eni nesaf i fynd i'r afael â'r her oedd Caerffili. Derbyniodd Lesley Constance, Rheolwraig Fwrdeistref dros Gaerffili, y wobr ar ran y ganolfan a dywedodd *'Mae mwy o rieni yn gofyn am gewynnau golchadwy yn ein dosbarthiadau crefft rhianta felly bydd y blwch gwybodaeth yma i rieni'n ddefnyddiol dros ben ar y ward ynghyd â'r dosbarthiadau'.*

Llun: Sian Dando a Lesley Constance.

Y ganolfan olaf i dderbyn gwobr cyn y Nadolig oedd ward Gwenllïan yn Ysbyty Bronglais. Ces i wahoddiad gan Sally Davies, rheolwraig y ward, i gyfarfod ward lle esboniais i sut roedd modd defnyddio'r blwch gwybodaeth. Roedd pob un o'r bydwragedd yn awyddus i wybod mwy am gewynnau go iawn ac wrth eu boddau i ddarganfod pa mor hawdd yw hi i'w defnyddio nhw!

Llun: Sian Dando a staff ward Gwenllïan.

Os bydd y tywydd yn caniatáu, bydd Sian yn ymweld â Llandrindod i roi'r gwobrau i holl ganolfannau geni Powys ym mis Ionawr ynghyd â Glan Clwyd, Ysbyty Gwynedd a Wrecsam Maelor. Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont a Chasnewydd yw'r unig ysbytai sydd wedi gwrthod cymryd rhan yn y cynllun ac rydym yn gobeithio y bydd gweddill y canolfannau a wardiau geni'n ymuno cyn diwedd y prosiect.

Popeth yn newid yn yr Ymgyrch Cewynnau Go Iawn

Ym mis Ebrill 2010, bydd yr Ymgyrch Cewynnau Go Iawn yng Nghymru'n newid. Bydd swydd rhan amser Sian a ariannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y 3 blynedd diwethaf yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010. Ar ôl y dyddiad yna ni fydd swyddog penodol ar gyfer yr Ymgyrch Cewynnau Go Iawn a bydd Cynllun Craff am Wastraff (CCW) yn parhau â'r rhestrau postio GIG a bydd yn cymryd ambell ddyletswydd arall drosodd fel diweddaru'r wefan, ailgyfeirio unrhyw alwadau neu e-byst sy'n dod yn sgil yr ymgyrch ac anfon unrhyw adnoddau y gofynnir amdanynt.

O hyn ymlaen, gan y 22 awdurdod lleol fydd y prif gyfrifoldeb am roi gwybodaeth a chyngor i rieni am gewynnau go iawn. Mae templedi i'r adnoddau ymgyrchu ar gael gan Sian cyn mis Mawrth neu gan CCW ar ôl hynny. Rydym yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn dal i weithio'n agos ag asiantau a stocwyr cewynnau go iawn lleol ynghyd â'r GIG i roi'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen ar rieni lleol. Darperir mwy o wybodaeth am yr hyn fydd mewn lle ar ôl mis Mawrth 2010 yn y rhifyn nesaf a'r rhifyn olaf o Clecs Cewynnau.

Asiantau a gwirfoddolwyr

Llongyfarchiadau i Rhian Green sy'n rhedeg MamiGreen yng Nghaerdydd ac wedi cael plentyn arall. Ganwyd Bethan Efa ar 18 Tachwedd 2009 ac mae'r ddwy'n gwneud yn dda iawn ac rydym yn siŵr fod y brodyr Gruffydd a Dafydd yn helpu Rhian i edrych ar ôl eu chwaer newydd.

Hefyd, mae Sam Deacon wedi cymryd y sgyrsiau cewynnau drosodd yn y dosbarthiadau crefft rhianta yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor ac eisoes wedi'i bwcio'n llawn tan 2011!

Gwaith Awdurdodau Lleol

Erbyn hyn, dim ond 2 awdurdod lleol yng Nghymru sydd heb dudalen we benodol ar gyfer cewynnau go iawn, sef Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag, mae gan Wynedd gopïau o ddatganiadau i'r wasg ac ychydig o fanylion am eu cynllun annog £30. Mae gan yr 20 ALl arall dudalennau gyda gwybodaeth am gewynnau go iawn gan gynnwys manylion am stocwyr lleol ar y rhan fwyaf ohonyn nhw.
Bellach mae gan 7 allan o'r 22 ALl gynllun annog cewynnau go iawn gan gynnwys:

- Cewyn a gorchudd Little Lamb am ddim gan Gyngor Powys.
- Taleb £75 gan Gyngor Sir Ddinbych.
- Taleb £30 neu becyn cewynnau gan Gyngor Gwynedd.
- Pecyn o 3 chewyn, gorchudd a leiners am ddim gan Gyngor Ceredigion.
- Taleb £30 gan Gyngor Torfaen.
- Hyd at £60 o arian yn ôl gan Gyngor Sir Benfro.
- Pecyn o gewynnau am ddim gan gynnwys cewynnau plyg-parod, gorchudd a leiners gan Gyngor Sir Gaerfyrddin.

Mae'r cynlluniau hyn yn ffordd wych o ddangos i rieni gymaint mae cewynnau go iawn wedi newid yn ogystal â rhoi cymhelliad bach ariannol iddyn nhw i fynd amdani a rhoi cynnig arnyn nhw.

Mae angen hyrwyddo cewynnau go iawn yn gyson gan fod rhieni yn defnyddio cewynnau am amser byr yn unig ac felly mae angen targedu mamau a thadau newydd yn gyson er mwyn i'r ymgyrch fod yn effeithiol. Gyda thros 31,000 o enedigaethau yng Nghymru bob blwyddyn, mae llawer o waith i'w wneud o hyd!

Cysylltwch â ni…

Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw beth sydd wedi cael ei drafod yn y cylchlythyr hwn, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â ni neu ymweld â'n gwefan.
Os ydych chi wedi trefnu unrhyw ddigwyddiadau yn eich ardal chi, rhowch wybod i ni a byddwn ni'n eu hychwanegu i'r wefan. Neu os hoffech chi gyfrannu at y cylchlythyr hwn, cysylltwch â ni ar bob cyfrif.

www.realnappies-wales.org.uk

0845 456 2477

recycle for Wales
ailgylchu dros Gymru
www.wasteawarenesswales.org.uk

Sustainable Wales
Cymru Gynhaliol